ASTUDIAETH ACHOS B-LINES

Ysbryd y Môr, Port Talbot, De Cymru

# Gwella ymylon ffyrdd a mannau gwyrdd ar gyfer peillwyr gydag adfywio naturiol

## Y safle

Mae **Ysbryd y Môr, Port Talbot, De Cymru** yn ystâd dai cymunedol sy'n cynnwys llecyn gwyrdd 0.6 ha sy'n berchen i ac sy'n cael ei reoli gan Coastal Housing, yn agos i'r traeth.



## Beth ddigwyddodd

Cyfarfu Buglife Cymru gyda Coastal Housing fel rhan o brosiect B-Lines Castell-nedd Port Talbot. Yn dilyn ymweliad â'r safle, cynigwyd cyngor ac ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i gynorthwyo Coastal Housing i gyfoethogi'r safle ar gyfer peillwyr.

## Arolwg o'r safle

Dangosodd arolygon bod y glaswelltir, sydd wedi'i leoli'n agos iawn i'r traeth ac ardaloedd o dwyni tywod, â phriddoedd tywodlyd tebyg iawn, sy'n isel mewn maetholion, sy'n ddelfrydol ar gyfer blodau gwyllt. Er bod torri glaswellt yn rheolaidd i gadw'r ardal yn daclus yn golygu bod fawr ddim blodau i'w gweld, roedd dail nifer fechan o rywogaethau o flodau gwyllt i'w gweld yno. Yn seiliedig ar yr arsylwadau hyn daethpwyd i'r casgliad bod y safle hwn yn ddelfrydol ar gyfer ei gyfoethogi trwy adfywio naturiol trwy ddim ond newid arferion rheoli.



Glöyn Byw Glesyn Cyffredin (*Polyommatus icarus*) ar Degeirian y Wenynen © Emily Shaw



© Emily Shaw

## Ymgynghoriad

Trosglwyddodd Buglife Cymru gyflwyniad a sesiwn ymgynghori gyda staff cynnal a chadw a thrigolion Coastal Housing, yn edrych ar sut y gellid addasu'r patrwm rheoli glaswelltir er mwyn caniatáu i blanhigion flodeuo. Gyda'n gilydd, penderfynwyd:

- Caniatáu i'r glaswellt a'r blodau dyfu o fis Ebrill i fis Medi
- Torri ym mis Medi a chlirio'r torion
- Torri llwybr troellog trwy'r glaswelltir ar gyfer trigolion lleol
- Torri'r llwybr a'r ymylon yn rheolaidd fel bod yr ardal yn edrych fel bod pobl yn gofalu amdani
- Ychwanegu planhigion plwg brodorol i ardaloedd o erddi ffurfiol

Darparodd Buglife Cymru blanhigion plwg a hyfforddiant penodol ar gyfer staff cynnal tiroedd ar adnabod rhywogaethau planhigion ac anghenion rheoli. Adeiladodd Coastal Housing gafnau plannu o gladin pren caled wedi'i ailgylchu.

## CYN



© Tom Bucher-Flynn

## Cyn newid y drefn rheoli

Byddai'r glaswelltir yn cael ei dorri bob 10 diwrnod gyda'r torion gwair yn cael eu gadael ar lawr. Roedd hyn yn sicrhau lawnt fer daclus ond prin oedd y planhigion allai flodeuo ac yn ystod cyfnodau sych byddai'r glaswellt yn troi'n frown. Roedd y torion a adawyd ar y safle'n pydru i lawr, gan ollwng maetholion yn ôl i'r pridd sy'n ffafrio tyfiant gweiriau ond nid blodau gwyllt.

### Planhigion oedd yn blodeuo cyn newid y drefn rheoli:

- Meillionen Wen
- Llygad y Dydd
- Dant y Llew

### Planhigion oedd i'w gweld o'u dail ond oedd ddim yn blodeuo:

- Tegeirian y Wenynen
- Milddail
- Melynydd

## AR ÔL



© Emily Shaw


## Ar ôl newid y patrwm rheoli

Mae'r ardal yn cael ei thorri 1 neu 2 waith y flwyddyn, gyda thoriad ar ddiwedd mis Medi ac, os oes angen, toriad ar ddechrau'r gwanwyn. Mae'r torion yn cael eu clirio gan y peiriant torri gwair ac yna defnyddir rhaca i sicrhau nad oes torion yn cael eu gadael ar y safle. Mae'r ymylon a'r llwybrau yn cael eu torri'n rheolaidd.

### Planhigion sy'n blodeuo ar ôl newid y drefn rheoli:

- Tegeirian y Wenynen
- Plucen Felen
- Efwr
- Milddail
- Meillionen Goch
- Peiswellt
- Melynydd
- Clust-y-llygoden Guldaidd
- Y Bengaled
- Llyriad yr Ais
- Effros
- Blodyn Llefrith
- Meillionen Wen
- Dant y Llew
- Trilliw'r Twyni
- Maglys Du
- Y Feddyges Las
- Llygad y Dydd
- Gorfanhadlen
- Tegeirian Bera
- Moronen y Maes
- Pysen-y-ceirw

**CYNNYDD AMLWG MEWN AMRYWIAETH BLODEUOL. 19 YN FWY O RYWOGAETHAU PLANHIGION YN BLODEUO MEWN 1 FLWYDDYN.**




## Buddiannau newid y drefn rheoli

### Cynnydd mewn bioamrywiaeth

Mae glaswelltiroedd sy’n gyfoeth o flodau gwyllt yn un o gynefinoedd bioamrywiol pwysicaf y DU. Gall glaswelltiroedd sy’n gyfoeth o rywogaethau gynnal ystod eang iawn o fywyd gwyllt yn cynnwys blodau gwyllt, ffyngau, infertebratau, ymlusgiaid, amffibiaid, mamaliaid bychan, ystlumod ac adar. Mae un o bob pum rhywogaeth â blaenoriaeth ar gyfer cadwraeth yn y DU yn gysylltiedig â chynefinoedd glaswelltir. Mae creu a rheoli glaswelltir sy’n gyfoeth o flodau gwyllt brodorol ar hyd B-Lines yn cyfrannu at greu rhwydwaith ar draws y DU o gynefinoedd cysylltiedig, sy’n caniatáu i rywogaethau symud ar draws tirweddau.

### Lles

Mae mynediad i natur ar riniog y drws yn gysylltiedig â buddiannau gwybyddol a gwelliannau i les meddyliol a chorfforol. Mae tystiolaeth yn dangos y gall edrych ar ddôl blodau gwyllt am ddim ond chwe eiliad ostwng eich pwysedd gwaed a gwneud ichi deimlo’n hapusach! Dysgwch fwy yma.

Mae therapi natur yn cael ei ddefnyddio fwyfwy ym maes gofal iechyd a lleoliadau preswyl ac mae’r buddiannau’n amhrisiadwy ar gyfer cleifion ac ymwelwyr. Mae creu glaswelltiroedd sy’n gyfoeth o flodau o amgylch ystadau tai yn gyfle gwych i ddefnyddio natur fel rhan o ofal ac adferiad cleifion.

Canfu’r Sefydliad Iechyd Meddwl bod mynd am dro’r tu allan yn un o’n prif strategaethau ymdopi yn ystod y pandemig ac adroddodd 45% ohonom fod bod mewn gofod gwyrdd byw wedi bod yn allweddol ar gyfer ein hiechyd meddwl. Gall cerdded ym myd natur, yn cynnwys glaswelltiroedd llawn blodau gwyllt, boed yn fach neu fawr, wella iechyd meddwl trwy leihau straen, gorbryder ac iselder yn ogystal â lleihau’r risg o afiechyd corfforol fel clefyd cardiofasgwlar.

### Gwasanaethau ecosystem

Mae peillwyr yn hanfodol ar gyfer peillio ein blodau gwyllt a chnydau bwyd. Mae peillwyr ac infertebratau eraill yn cynnig gwasanaethau allweddol eraill hefyd fel rheoli plâu’n naturiol ac mae priddoedd glaswelltiroedd iach yn gweithredu fel dalfeydd carbon mawr, sy’n helpu i liniaru newid hinsawdd a rhoi hwb i wasanaethau ecosystem eraill. Mae priddoedd iachach, y rheini sydd â chymunedau o blanhigion amrywiol, hefyd yn dal mwy o ddŵr glaw gan helpu i leihau llifogydd.

### Costau

Mae’n bosibl y bydd cost gychwynnol ar gyfer prynu peiriannau torri a chasglu os nad oes gennych rai’n barod, ond bydd hyn yn talu am ei hun yn fuan ac efallai y bydd cyllid ar gael i helpu gyda hyn. Gellir rheoli ardaloedd bychan â llaw. Bydd cwtogi mynychder torri glaswellt yn arwain at gostau tanwydd is a llai o amser staff. Gellir gwneud defnydd gwell o amser staff ar feysydd gwaith eraill.

### Dod yn sefydliad mwy gwyrdd

Mae Coastal Housing yn arddangos sut gellir rheoli mannau gwyrdd ar gyfer pobl yn ogystal â natur, gan fabwysiadu polisïau carbon isel, sy’n gyfeillgar at natur.

## Gwersi a ddysgwyd

1. **Sicrhau bod y staff cynnal tiroedd i gyd yn ymwybodol o’r cynllun rheoli a bod ganddynt fan canolog enwebedig i staff gyfeirio ato.** Yn aml, gyda phrosiect newydd neu newid yn y drefn rheoli gallai bod un aelod brwdfrydig o staff fydd yn arwain y newid ac ysbrydoli eraill. Os bydd y person hwnnw neu honno’n symud yn eu blaen neu’n sâl am gyfnod, oni bai bod y cynllun wedi’i egluro a’i rannu gydag eraill sydd hefyd yn cefnogi’r cynllun, gallai cynnydd gael ei golli pan fydd yr unigolyn hwnnw / honno yn absennol.

2. **Cael mwy nag un person cyswllt, rhag ofn.**

3. **Wrth weithio gyda’r trigolion i wella llecyn gwyrdd lleol, cynnig amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu er mwyn darparu ar gyfer pawb a’u hannog i brynu i mewn i’r syniad.**

4. **Rheoli disgwyliadau o ran yr hyn ellir ei drosglwyddo mewn cyfnod byr**. Ceisiwch beidio gor-ymddiried ynghylch yr hyn ellir ei gyflawni mewn cyfnod byr. Gall llawer o ddolydd gymryd 3-5 blynedd i dyfu’n fwy amrywiol trwy adfywio naturiol. Mae adfywio naturiol yn llai tebygol o fod yn llwyddiannus ar safleoedd sy’n fwy cyfoethog mewn maetholion.

COASTAL Housing Group

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND



Mae Buglife - The Invertebrate Conservation Trust yn gwmni cyfyngedig trwy warant, a gofrestrwyd yn Lloegr yn Allia Future Business Centre, London Road, Peterborough PE2 8AN. Rhif cwmni 4132695. Elusen gofrestredig rhif 1092293. Elusen gofrestredig Yr Alban rhif SC040004.